# Cyfarwyddiaeth Adnoddau
# Is-adran Archwilio Mewnol

## Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol
(Ar 30 Medi 2022)


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 2 |
| Cefndir | 2 |
| Annibyniaeth a Gwrthrychedd | 2 |
| Datblygiad Proffesiynol Parhaus | 2 |
| Asesiad Cymheiriaid Allanol | 3 |
| Crynodeb o'r Gwaith a Gyflawnwyd | 3 |
| Gweithgareddau Presennol | 3 |
| Adnoddau | 6 |
| Cynllun Blynyddol | 7 |
| Canfyddiadau Critigol neu Dueddiadau sy'n Dod i'r Amlwg *(Ch2 2022/23)* | 8 |
| Canfyddiadau Gwerth am Arian *(Ch2 2022/23)*10 | |
| Perfformiad Archwilio a Gwerth Ychwanegol | 11 |
| Gwerth Ychwanegol | 11 |
| Perfformiad | 11 |
| Gweithredu Cynllun Archwilio | 13 |
| Argymhellion | 13 |
| Casgliad | 14 |

| | |
|---|---|
| Atodiad A | Statws Adroddiad ar 30 Medi 2022 |
| Atodiad B | Cynllun Archwilio |
| Atodiad C | Crynodeb o’r Argymhellion |
| Atodiad D | Argymhellion agored coch a choch / oren |
| Atodiad E | Argymhellion coch a choch / oren wedi'u cwblhau ers y Pwyllgor diwethaf |


Paratowyd gan:  Chris Pyke, Rheolwr Archwilio

# Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol

## 1 Cyflwyniad

### 1.1 Cefndir

Mae'r Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol yn nodi perfformiad o ran y Cynllun Archwilio Mewnol. Mae'n crynhoi'r gwaith a wnaed, yr argymhellion blaenoriaeth a godwyd, y canfyddiadau critigol, tueddiadau sy'n dod i'r amlwg, a chanfyddiadau gwerth am arian perthnasol.

Mae'r adroddiad cynnydd yn cwmpasu'r cyfnod o 1 Mawrth i 30 Medi 2022, ac yn dilyn y diweddariadau a roddwyd yn y cyfarfod Pwyllgor diwethaf a gynhaliwyd ar 17 Gorffennaf 2022. Mae'r adroddiad hwn wedi'i strwythuro i roi crynodeb o weithgareddau archwilio, canlyniadau a chynnydd a wnaed yn erbyn Cynllun Archwilio 2022/23.

Cafodd Cynllun Archwilio 2022/23 ei gymeradwyo gan y Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio ar 15 Mawrth 2022. Mae'r Cynllun Archwilio Mewnol yn darparu'r fframwaith ar gyfer gwaith archwilio bob blwyddyn ac mae'n cyd-fynd â threfniadau llywodraethiant corfforaethol y Cyngor, gan ymateb hefyd i unrhyw newidiadau i'r risgiau a wynebir gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn.

### 1.2 Annibyniaeth a gwrthrychedd

Mae'r Adran Archwilio Mewnol yn adrodd i'r Rheolwr Archwilio. Yn unol â darpariaethau Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (1100), cynhelir annibyniaeth sefydliadol gan nad yw'r Rheolwr Archwilio yn gyfrifol am reoli unrhyw swyddogaethau y tu hwnt i'r timau Ymchwilio ac Archwilio Mewnol. Mae'r Rheolwr Archwilio yn adrodd yn weinyddol i'r Pennaeth Cyllid ac yn swyddogaethol i'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio am faterion sy'n ymwneud ag archwilio. Ni fu unrhyw achosion o amharu ar annibyniaeth na gwrthrychedd.

### 1.3 Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Cwblhaodd yr archwilwyr eu hadolygiadau personol ddiwedd y flwyddyn a ffurfioli eu hamcanion ar gyfer 2022/23. Cyn trafod perfformiad, cwblhaodd yr archwilwyr eu hasesiad sgiliau o ran Fframwaith Cymwyseddau Proffesiynol y Sefydliad Archwilwyr Mewnol (SAM).

Llywiodd canlyniadau adolygiadau personol ac asesiadau sgiliau adolygiad y Rheolwr Archwilio ar ddiwedd y flwyddyn yn erbyn y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwella (Safon 1300), y cydnabuwyd gwaelodlin gyffredinol gref o wybodaeth a sgiliau ohoni ar draws y tîm archwilio.

### 1.4 Asesiad Cymheiriaid Allanol

Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (SAMSC) yn gofyn bod asesiad allanol yn cael ei gynnal o leiaf unwaith pob pum mlynedd gan aseswr annibynnol cymwys neu dîm asesu o'r tu allan i'r sefydliad. Cwblhawyd yr asesiad cymheiriaid allanol diweddaraf gan y Pennaeth Archwilio o Rondda Cynon Taf ac adroddodd i'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio ym mis Mawrth 2018.

Yn ychwanegol i'r manylion a ddarparwyd i'r Pwyllgor ym mis Gorffennaf, mae gwybodaeth gychwynnol wedi'i rhoi i Brif Archwilydd Sir Fynwy sydd wedi'i glustnodi i wneud yr asesiad cymheiriaid o wasanaeth Archwilio Mewnol Cyngor Caerdydd.

Yn amodol ar yr adolygiad yn cael ei gwblhau mewn digon o amser, y bwriad yw cyflwyno'r asesiad i'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2023.

## 2 Crynodeb o'r Gwaith a Gyflawnwyd

### 2.1 Gweithgareddau Presennol

Yn ystod chwarter dau 2022/23, blaenoriaethau ac ymagwedd y tîm archwilio oedd darparu cyfuniad o gymorth rheoli drwy ymgynghori ac ymgysylltu mewn meysydd risg uchel, a bwrw ymlaen â chyflawni ymgysylltiadau sicrwydd o'r Cynllun Archwilio.

Mae'r Tîm Archwilio Mewnol wedi parhau i fod ar gael a rhoi cyngor ac arweiniad ar gynllunio a gweithredu rheolaethau effeithiol wrth weinyddu cynlluniau grantiau COVID-19 Llywodraeth Cymru yn ogystal â'r Cynllun Cartrefi i Wcráin, i sicrhau cydymffurfiaeth a rheolaeth, a threfniadau ar gyfer atal a chanfod twyll yn effeithiol.

Mae'r gwaith hwn yn parhau i gael ei wneud yn bennaf ar sail bwrdd gwaith, er bod ymweliadau safle yn digwydd ar gyfer archwilio sefydliadau, a lle mae angen arsylwi gweithrediad rheolaethau corfforol neu arferion gweithredu.

Mae'r tabl isod yn dangos rhestr o archwiliadau a'u statws adrodd yn ystod y flwyddyn bresennol tan 30 Medi 2022, lle y cwblhawyd 25 o ymgysylltiadau archwilio newydd hyd at y cam allbwn drafft o leiaf a gorffennwyd 15 o ymgysylltiadau archwilio o'r flwyddyn flaenorol. Dangosir crynodeb o'r allbynnau a'r farn archwilio yn y flwyddyn dan sylw isod.

Ffigur 1. Allbynnau a barn archwilio (ar 31 Medi 2022)

| Statws | Nifer yr archwiliadau a gwblhawyd | Barn | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Effeithiol | Effeithiol gyda lle i wella | Annigonol ac angen gwelliant mawr | Anfoddhaol | Ni roddwyd barn |
| Drafft | 15 | 2 | 13 | 0 | 0 | 0 |
| Terfynol | 25 | 5 | 11 | 2 | 0 | 7 |
| CYFANSWM | 40 | 7 | 24 | 2 | 0 | 7 |
| | 25 | Ymgysylltiadau Archwilio Newydd a gwblhawyd | | | | |
| | 15 | Ymgysylltiadau Archwilio a Orffennwyd o 2021/22 | | | | |

Ffigur 2. Allbynnau a barn archwilio 2022/23 (ar 30 Medi 2022)

| Rhif | Ymgysylltiad Archwilio Sicrwydd | Barn Archwilio |
|---|---|---|
| 1. | Grantiau Covid Llywodraeth Cymru - Sicrwydd (2021/22)* | Effeithiol |
| 2. | Gwasanaeth Ewch â Fi Adre | |
| 3. | Cynlluniau CGI (gan gynnwys Teuluoedd yn Gyntaf) | |
| 4. | Rheoli Asedau Ysgol - Thematig (Albany) | |
| 5. | Incwm a Dyledwyr | Effeithiol gyda lle i wella |
| 6. | Iechyd a diogelwch | |
| 7. | Llywodraethiant Contractau Hamdden | |
| 8. | Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir yng Nghaerdydd | |
| 9. | Cantonian | |
| 10. | Ysgolion â Balansau Dros Ben - Thematig | |
| 11. | Taliadau Staff Asiantaeth | |
| 12. | Trefniadau Rheoli Risg | |
| 13. | Caffael | |
| 14. | Storfeydd Brindley Road | |
| 15. | Diogelu | |
| 16. | Maes Carafanau Caerdydd | |
| 17. | Ysgol Farchogaeth Caerdydd | |
| 18. | Contract Trin Gwastraff Organig Caerdydd | |

| Rhif | Ymgysylltiad Archwilio Sicrwydd | Barn Archwilio |
|---|---|---|
| | Gwaith Archwilio gyda 'Dim Barn' | |
| 19. | HRhR - Prynu a Thaliadau | |
| 20 | HRhR - Cyflogres ac Adnoddau Dynol | |
| 21. | Cydbwyllgorau - Prosiect Gwyrdd | Ymgynghoriaeth, ac |
| 22. | Cydbwyllgorau – Awdurdod Iechyd Porthladd | ardystio, cyngor |
| 23. | Cydbwyllgorau - Archifau Morgannwg | NICE |
| 24. | Ymgynghoriaeth Gwasanaeth / Prosesau | |
| 25. | Grant Gwella Addysg 2021/22 | |
| | Archwiliadau wedi'u Cwblhau o'r Flwyddyn Flaenorol | |
| 26. | Prynu a Thaliadau - profion yn ystod y flwyddyn | Effeithiol |
| 27. | Comisiynu a Chaffael - Pobl a Chymunedau | |
| 28. | Prif Gyfrifyddu | |
| 29. | Archwiliad Crud i'r Bedd | Effeithiol gyda |
| 30. | Teleofal | lle i |
| 31. | Llywodraethiant Gwybodaeth | wella |
| 32. | Parhad Busnes a Rheoli Digwyddiadau | |
| 33. | Rheoli perfformiad | |
| 34. | Cardiau prynu | |
| 35. | Cynlluniau Adfer Cyfarwyddiaethau | |
| 36. | Adnoddau – Sicrwydd Cyn Contract | |
| 37. | Incwm a dyledwyr - Gwasanaethau Cymdeithasol | |
| 38. | Iechyd a Diogelwch Ysgolion - Thematig | |
| 39. | Lleoliadau Plant | Annigonol, angen |
| 40. | Cytundebau Adran 106 | gwelliant mawr |

*Gwnaed trefniadau i'r archwiliad o 'Grantiau Covid Llywodraeth Cymru – Sicrwydd' gael ei oruchwylio gan Reolwr Gweithredol arall yn yr adran Gyfrifeg, ac i dynnu unrhyw ymwneud yn yr adroddiad archwilio oddi ar y Rheolwr Archwilio, sydd wedi cynghori ar ddylunio a gweithredu'r rheolaethau wrth weinyddu'r grantiau hyn.

Yn ogystal â'r tabl uchod, mae'r allbynnau na roddwyd barn sicrwydd arnynt a'r rhesymau dros hynny fel a ganlyn:

Ffigur 3. Archwiliadau cyflawn heb farn sicrwydd (ar 30 Medi 2022)

| Archwilio | Sylwadau |
|---|---|
| Cydbwyllgorau - Prosiect Gwyrdd | Gwaith i gefnogi cwblhau'r Datganiad Cyfrifon, 2021/22 |
| Cydbwyllgorau – Awdurdod Iechyd Porthladd | |
| Cydbwyllgorau - Archifau Morgannwg | |
| Ymgynghoriaeth Gwasanaeth a Phrosesau – Cynllun Cartrefi i Wcráin a Grantiau COVID-19 Llywodraeth Cymru | Cydymffurfio, rheolaeth ac arweiniad gwrth-dwyll |
| Grant Gwella Addysg 2021/22 | Ardystio grant |
| HRhR - Prynu a Thaliadau | Cwblhau Hunanasesu Rheoli Risg (HRhR) Ymarferion gyda chleientiaid |
| CRSA - Cyflogres ac Adnoddau Dynol | |

Dangosir statws yr adroddiad ar gyfer y flwyddyn hyd yn hyn yn **Atodiad A.**

## 2.2 Adnoddau

Mae adolygiad wedi digwydd o'r gofynion adnoddau ar gyfer y tîm sy'n gysylltiedig â chynllunio cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod. Daw hyn yn dilyn ail ymarfer recriwtio aflwyddiannus ar gyfer swydd uwch archwilydd gwag yn ystod Hydref 2022, a dim ymgeiswyr addas pan gafodd y swydd ei hysbysebu wedyn ar sail dros dro.

- Penderfynwyd buddsoddi mewn swydd prif archwilydd ychwanegol i gryfhau craidd cadarn o uwch swyddogion o fewn y tîm a fyddai'n cynrychioli aelod ychwanegol o'r Tîm Rheoli Archwilio, yn amodol ar ymgyrch recriwtio lwyddiannus.
- Y bwriad yw ceisio penodi ar lefel prif archwilydd (gradd 9) a pheidio â llenwi'r uwch archwilydd (gradd 7) a swyddi gwag eraill (0.4fte fel uwch archwilydd a 0.19fte ar radd archwilydd) a fyddai'n galluogi arbed £15k ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23.
- Bydd gwaith y tîm mewnol yn parhau i gael ei ategu gan gomisiynu archwilwyr arbenigol i weithio o dan gyfarwyddyd y rheolwr archwilio lle bo angen, gan fod y dull hwn wedi bod yn werthfawr dros y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf.

Mae'r swydd uwch archwilydd gwag wedi cael effaith ar yr adnodd staff sydd ar gael a dilyniant y cynllun archwilio yn y flwyddyn hyd yma, yn yr un modd â swydd arall a oedd yn wag yn ystod chwarter un. Er mwyn cefnogi darpariaeth archwilio mewn meysydd TG a llywodraethiant

corfforaethol eleni, dyfarnwyd contract ar gyfer cyflawni pedwar ymgysylltiad archwilio o dan gyfarwyddyd y rheolwr archwilio.

Gan fod pob archwilydd gweithredol a'r cynorthwyydd archwilio yn cofnodi'r holl amser gwirioneddol a weithiwyd, mae gwybodaeth rheoli ddefnyddiol ar gael at ddibenion cynllunio, monitro ac adrodd. Roedd y data taflen amser yn cynnwys 588 diwrnod taladwy ar draws y tîm hyd at ddiwedd chwarter dau, yn erbyn cynllun pro-rata o 719 diwrnod. Mae'r tîm wedi bod yn gweithredu ar gapasiti codi tâl o 82% o'r cynllun, a briodolir yn bennaf i'r swydd uwch archwilydd wag, ond hefyd wedi'i effeithio gan fwy o ddefnydd ar gyfer amser gweinyddol a rheoli, ac ymgysylltu â staff mewn mentrau datblygu a lles corfforaethol. Cafwyd rhai achosion o salwch byrdymor, er bod effaith hyn ar adnoddau staff wedi bod yn gymharol fach.

Mae amser ar gael at ddibenion datblygu archwilio, ac mae gan un Archwilydd gyllid wedi'i neilltuo er mwyn astudio'r Cymhwyster Archwilydd Systemau Gwybodaeth Ardystiedig (CISA) gydag ISACA.

## 2.3 Cynllun blynyddol

Mae Cynllun Archwilio 2022/23 i'w weld yn Atodiad B. Er y caiff ei bennu'n flynyddol, mae'r Cynllun Archwilio'n addasadwy ac yn ymatebol a bydd yn destun asesiadau risg parhaus, blaenoriaethu ac adolygiadau gydol y flwyddyn er mwyn gwneud y mwyaf o sicrwydd a chymorth rheolwyr. Mae'n bosibl y caiff newidiadau yn ystod y flwyddyn eu cyflwyno lle y bo'n briodol, er mwyn ymateb i risgiau a materion sy'n dod i'r amlwg wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen.

Er gwybodaeth i'r pwyllgor, amlygir yr holl archwiliadau a oedd â statws drafft ar ddiwedd 2022/23 yn 'llwyd' er mwyn gallu olrhain cwblhau yr archwiliadau hyn, tra'n darparu gwahaniad gweladwy o'r ymgysylltiadau archwilio a geir yng Nghynllun Archwilio 2022/23.

Mae cyflawniad Cynllun Archwilio 2022/23 yn gymesur is na'r hyn a dargedwyd yn chwarter dau, ac mae'r rhesymau'n ymwneud yn bennaf ag adnoddau fel yr amlinellir yn adran 2.2. Yr 'Adnoddau' y dangosir y sefyllfa ar eu cyfer yw adran 3.2 'perfformiad'. Nid yw'n anghyffredin chwaith i berfformiad fod yn is ar y cam hwn yn y flwyddyn, sy'n dilyn gwyliau'r haf.

Caiff archwiliadau eu dyrannu o hyd ar sail sy'n darparu'r sicrwydd a'r gwerth mwyaf, ac sy'n lliniaru unrhyw amhariad ar farn flynyddol y Rheolwr Archwilio ar amgylchedd rheoli'r Cyngor ar gyfer 2022/23.

2.4 Canfyddiadau critigol neu dueddiadau sy'n dod i'r amlwg (Ch2 2022/23)

Yn ystod chwarter dau, mae'n gadarnhaol adrodd bod y farn archwilio a roddwyd naill ai'n 'effeithiol' neu'n 'effeithiol gyda lle i wella'. Ni ystyrir bod unrhyw broblemau rheoli materol a nodwyd dros y cyfnod adrodd, ac felly mae ffocws y paragraffau canlynol yn hytrach yn rhoi manylion ar yr archwiliadau llywodraethiant sylfaenol a chorfforaethol sydd wedi'u cwblhau, o ystyried pwysigrwydd amgylchedd rheoli mewnol cadarn yn y meysydd hyn.

Mae dau ymarferiad Hunanasesiad Rheoli Risg (HRhR) wedi'u cwblhau yn ystod chwarter dau. Roedd y cyntaf yn ymwneud â rheolaethau craidd ynghlwm â'r swyddogaethau cyflogres ac Adnoddau Dynol, a'r ail yn gysylltiedig â rheolaethau a weithredir o fewn systemau prynu a thalu. Ym mhob achos, gydag ymgysylltu swyddogion allweddol, trafodwyd yr amgylchedd rheoli mewnol a diweddarwyd y templed HRhR i adlewyrchu unrhyw risgiau, cyfrifoldebau, neu systemau newydd. Yna cwblhawyd y templed HRhR gan y cleient archwilio ynghyd â thystiolaeth berthnasol. Ar hyn o bryd mae'r dychweliadau wedi cael eu hadolygu a'u cadarnhau fel asesiadau llawn wedi'u diweddaru. Y cam nesaf fydd cynnal profion yn ystod y flwyddyn o fewn pob un o'r systemau hyn, y disgwylir i hynny ddechrau yn ystod chwarter tri.

Roedd y system sylfaenol bellach a adolygwyd yn ystod chwarter dau yn ymwneud â'r defnydd o staff asiantaeth lle rhoddwyd barn o effeithiol gyda lle i wella ar ei gyfer. Defnyddir Darparwr Gwasanaeth Rheoledig (Matrix) i reoli'r "gadwyn gyflenwi" a chynorthwyo i gyrchu staff asiantaeth sydd eu hangen, ac roedd rheolaethau priodol ar waith ar gyfer prosesau cymeradwyo a thalu. Roedd yr archwiliad yn cydnabod pwysigrwydd cael darpariaeth o staff asiantaeth ar gael er mwyn cwrdd â gofynion y gweithlu, gan gydnabod yr angen i reoli unrhyw orddibyniaeth ar staff asiantaeth. Wedi'i alinio â hyn, mae'r Cyngor wedi addo lleihau nifer y gweithwyr asiantaeth ar aseiniadau tymor hir, ac mae polisi newydd yn darparu cynnig o gontract dros dro i weithwyr asiantaeth sydd â dwy flynedd o wasanaeth parhaus a chontract parhaol i'r rhai sydd â gwasanaeth o bedair blynedd. Nododd yr archwiliad fod cyfran fechan o weithwyr asiantaeth wedi eu contractio ers dros bedair blynedd (52 allan o'r 1,156) tra bod cyfran uwch (168 allan o 1,156) wedi eu contractio ers dros ddwy flynedd. Er bod adroddiadau rheolaidd yn cael eu hanfon at Gyfarwyddwyr a oedd yn cynnwys gwariant a nifer y lleoliadau asiantaeth gweithredol,

cytunwyd trwy'r archwiliad i’r adroddiadau hyn hefyd gynnwys manylion gweithwyr asiantaeth a oedd ar leoliad am fwy na deuddeg mis wrth symud ymlaen er mwyn i'r rheolwyr roi sylw wedi'i dargedu i achosion o'r fath.

O ran gwaith llywodraethiant corfforaethol, y meysydd mwy a archwiliwyd dros y cyfnod adrodd oedd caffael, rheoli risg a diogelu, y cyhoeddwyd adroddiadau drafft ar eu cyfer i reolwyr eu hystyried, a nodir rhagor o fanylion isod.

Roedd yr archwiliad ar gaffael yn cydnabod aeddfedrwydd cyffredinol trefniadau corfforaethol ar gyfer comisiynu a chaffael a rhoddwyd barn ddrafft o 'effeithiol gyda lle i wella'. Nodwyd manteision gwybodaeth reoli ddiweddar sydd ar gael trwy gyfres o adroddiadau Power BI ar gyfer cydymffurfiaeth, gwariant a gwybodaeth ehangach am reoli contractau. Fodd bynnag, ar adeg pan fo’r adroddiadau hyn wedi eu datblygu’n ddiweddar, ystyriwyd bod yr angen am gywirdeb ac ymgysylltiad gan y gyfarwyddiaeth yn hanfodol ar gyfer gwireddu'r bwriadau cadarnhaol llawn. Fe godwyd rhai argymhellion cysylltiedig i wella ansawdd y data mewn rhai meysydd, ac i sicrhau bod yr holl gyfarwyddiaethau yn gwneud y defnydd gorau o'r wybodaeth sydd ar gael. Roedd gan rai cyfarwyddiaethau fylchau yn eu rhestrau contractau a’u blaen gynlluniau a chynigir bod yna gefnogaeth bellach wedi'i thargedu ar eu cyfer gan y tîm comisiynu corfforaethol a chaffael. Argymhellwyd hefyd bod dosbarthiadau contractau yn cael eu hadolygu ar gyfer sicrhau eu gweithrediad cyson, a bod canllawiau pellach yn cael eu roi i gefnogi cofnodi asesiadau risg contract yn gyson. Yn olaf, nodwyd bod cyfle i ddigideiddio ffurflenni a phrosesau craidd, ac mae hyn wedi'i argymell drwy'r adolygiad archwilio.

Roedd archwilio rheoli risg yn cynnwys ystyried aeddfedrwydd trefniadau sydd ar waith ar lefelau corfforaethol a chyfarwyddiaeth, y dyrannwyd barn archwiliad drafft o 'effeithiol' ar eu cyfer. Roedd prosesau rheoli risg wedi'u sefydlu'n dda ac yn cyd-fynd â phrosesau corfforaethol allweddol eraill gan gynnwys cynllunio corfforaethol, cynllunio cyflawni ac adrodd ar berfformiad cyfarwyddiaethau. Cafodd sampl o risgiau corfforaethol a chofrestrau risg cyfarwyddiaethau eu hadolygu, a chynhaliwyd cyfarfodydd gyda phedwar pencampwr risg cyfarwyddiaeth er mwyn deall gweithrediad ymarferol rheoli risg ar lefel cyfarwyddiaeth. Ar gyfer y meysydd a samplwyd, roedd cyfarwyddiaethau'n defnyddio rheoli risg mewn modd strwythuredig a chymesur ar gyfer prosiectau, i reoli ardaloedd gweithredol risg uchel ac ar gyfer gweithrediadau o ddydd i ddydd. Er mwyn gwella'r trefniadau presennol ac ansawdd yr adrodd ar risg, cynigiwyd bod y tîm corfforaethol yn cytuno a chyfathrebu â chyfarwyddiaethau ddull cyson o gofnodi dyddiadau

targed lleihau risg  (yn benodol yng rhestrau risg cyfarwyddiaethau), tra'n cynnal ffocws ar yr angen i gipio lefel uwch o ddata rheoli risg (yn arbennig dangosyddion allweddol a mesurau risg).

Roedd yr archwiliad diogelu yn ystyried effeithiolrwydd trefniadau llywodraethiant, polisïau, gweithdrefnau a hyfforddiant wrth gyflawni cyfrifoldebau ac ymrwymiadau corfforaethol. Mae barn ddrafft o 'effeithiol gyda lle i wella' wedi'i chlustnodi ac mae nifer fach o argymhellion wedi'u targedu wedi eu gwneud. Nodwyd bod diogelu yn cael ei gydnabod ar Gofrestr Risg Corfforaethol y Cyngor (CRC) ac mae'r CRC yn cynnwys camau gweithredu a lliniaru i fynd i'r afael â'r risg hon. Roedd materion diogelu yn derbyn ffocws ym meysydd recriwtio staff a chaffael ac roedd trefniadau ar gyfer asesu ac adolygu corfforaethol, gyda hyfforddiant sylfaenol i Aelodau a Swyddogion yn ei le. Roedd bwlch o ran cyhoeddi'r adroddiad diogelu blynyddol, lle cyn datblygu'r adroddiad diweddar, cyhoeddwyd yr adroddiad blaenorol ym mis Ionawr 2019. Mae'r adroddiad diweddaraf yn ymwneud â'r flwyddyn ariannol 2021/22 a dwedwyd wrth staff archwilio bod y bwlch o ran adrodd blynyddol yn digwydd tra bod camau'n cael eu cymryd i gryfhau prosesau, yn fwyaf arbennig y ffurflenni corfforaethol a ddefnyddiwyd ar gyfer asesu llywodraethiant ar lefel cyfarwyddiaeth ar gyfer sicrwydd corfforaethol. Argymhellwyd bod yr adroddiad diogelu blynyddol yn cael ei baratoi a'i gyhoeddi bob blwyddyn gyda chamau'n cael eu cymryd i sicrhau ymgysylltiad amserol gyda swyddogion ar draws y Cyngor. Er bod cyfranogiad corfforaethol yn yr Wythnos Ddiogelu Genedlaethol, cynigiwyd y dylid paratoi cynllun cyfathrebu diogelu ffurfiol. Yn ogystal, er y bu ymgysylltu â Chomisiynu a Chaffael ar reoli risgiau diogelu mewn gweithgareddau caffael, cynigiwyd ymgysylltu pellach er mwyn bod yn fodlon fod yr holl risgiau diogelu sy'n gysylltiedig â chontractau wedi'u hystyried yn briodol gyda lliniaru angenrheidiol ar waith.

2.5 Canfyddiadau Gwerth am Arian (Ch2 2022/23)

Ni chynhaliwyd unrhyw archwiliadau ar y thema gwerth am arian yn ystod y cyfnod adrodd.

Mae gan fwyafrif llethol yr archwiliadau a gynhaliwyd gan y Tîm Archwilio Mewnol amcanion sy'n cwmpasu sicrwydd gwerth am arian, sy'n cynnig lefel foddhaol gyffredinol o sicrwydd ar gyfer y cyfnod adrodd.  Fodd bynnag, o fewn yr archwiliadau â barn sicrwydd is, roedd bylchau rheoli y mae angen mynd i'r afael â hwy er mwyn rhoi sicrwydd bod amcanion y gwasanaethau hyn yn cael eu bodloni, gyda sylw priodol i gyfuniad o ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

# 3 Perfformiad Archwilio a Gwerth Ychwanegol

## 3.1 Gwerth Ychwanegol

Cynhaliwyd cyfarfodydd Perthnasoedd Rheolwyr gyda Chyfarwyddwyr a'u cynrychiolwyr wrth ddatblygu'r cynllun archwilio yn chwarter pedwar 2021/22. Yna cynhaliwyd rhagor o gyfarfodydd yn chwarter un 2022/23, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddeall y blaenoriaethau a'r risgiau o fewn pob tîm rheoli, a'r newidiadau i systemau neu brosesau a gynlluniwyd neu sydd ar y gweill, er mwyn cyfarwyddo cyngor archwilio a llywio'r gwaith o gynllunio ymgysylltiadau archwilio.

Mae adborth gan gleientiaid archwilio wedi bod yn gadarnhaol yn y flwyddyn hyd yma, gyda chyfraddau boddhad yn 100% gan gleientiaid sydd wedi ymateb, gydag 83% yn nodi fod eu harchwiliad wedi 'ychwanegu gwerth'.

Yn yr allbynnau archwilio a gyhoeddwyd hyd yma (sef 30 Medi 2022), roedd 130 o argymhellion wedi eu gwneud, cytunwyd ar 60 o argymhellion, ac mae 70 yn cael eu hystyried gan gleientiaid archwilio drwy allbynnau archwilio drafft. Mae'r rhain wedi eu crynhoi isod:

Ffigur 4. Argymhellion a godwyd ac a gytunwyd

| Sgôr | Argymhellion a wnaed | Argymhelliad a gytunwyd | Argymhellion sy'n cael eu hystyried |
|---|---|---|---|
| Coch | 0 | 0 | 0 |
| Coch / oren | 52 | 25 | 27 |
| Oren / gwyrdd | 74 | 34 | 40 |
| Gwyrdd | 4 | 1 | 3 |
| CYFANSWM | 130 | 60 | 70 |

## 3.2 Perfformiad

Fel yr amlinellir yn adran 2.1 ('Gweithgareddau Presennol'), blaenoriaethau ac ymagwedd y tîm archwilio yn ystod chwarter un oedd darparu cyfuniad o gymorth rheoli drwy ymgynghori ac ymgysylltu mewn meysydd risg uchel, a chyflawni mwy o ymrwymiadau sicrwydd o'r Cynllun Archwilio.

Amlinellir y prif resymau pam fod y gwasanaeth archwilio yn gweithredu ar gapasiti is yn ystod y chwarter yn 2.2 ('Adnoddau'). Ar ddechrau'r flwyddyn, pennwyd targed arfaethedig ar gyfer cyflawni'r Cynllun Archwilio ar 70% a'i integreiddio i brosesau cynllunio archwilio a rheoli

perfformiad.  Ystyriwyd bod y targed yn ymestynnol ac yn gyraeddadwy, a’r prif resymau dros lithro yn erbyn y mesur hwn oedd y ddwy swydd uwch archwilydd gwag.

Mae nifer o archwiliadau wedi'u cwblhau o'r flwyddyn ariannol ddiwethaf, fel y dangosir yn ffigur 1, ond mae'r rhan fwyaf o'r archwiliadau a gwblhawyd eleni ar y cam drafft.  Pan fydd adroddiadau wedi'u hystyried a'u bod rheolwyr wedi ymateb iddynt, bydd nifer yr archwiliadau a gwblheir yn cynyddu, yn ogystal â mesur yr archwiliadau a gwblheir fesul cyfwerth ag amser llawn. Rhoddir sylw i ymgysylltu â rheolwyr gyda'r bwriad o gwblhau archwiliadau drafft.

Roedd canran yr adroddiadau drafft a gwblhawyd mewn pedair wythnos yn ystod chwarter dau yn 84%, sy'n cynrychioli adferiad o’r perfformiad yn chwarter un. Bydd pwysigrwydd adrodd ar archwiliadau’n brydlon yn ffocws parhaus eleni.

Mae Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio wedi cymryd diddordeb penodol mewn perfformiad yn erbyn canran yr argymhellion archwilio a weithredwyd o fewn yr amserlen y cytunwyd arni, sydd wedi bod yn is na'r targed ers nifer o flynyddoedd.  Gwelwyd gwelliant mewn perfformiad yn erbyn y mesur hwn yn chwarter dau, sy'n caniatáu am lithriad o bythefnos waith o'r targed camau gweithredu a osodwyd i ddangos eu bod wedi eu cyflawni.

Ffigur 5. Perfformiad yn erbyn y targedau ar gyfer 2022/23 (hyd yma)

| Dangosydd Perfformiad | Canlyniad 2021/22 | Targed 2022/23 | Canlyniad Ch1 | Canlyniad Ch2 |
|---|---|---|---|---|
| Canran y Cynllun Archwilio a gwblhawyd | 61% | 70% | 13% | 25% |
| Nifer gyfartalog y diwrnodau archwilio cynhyrchiol fesul CALl | 147 | 150 | 37 | 68 |
| Nifer gyfartalog yr archwiliadau wedi’u cwblhau fesul CALl | 7.4 | 9 | 1.43 | 3.13 |
| Canran yr allbynnau archwilio drafft a gyflawnwyd o fewn pedair wythnos | 92% | 90% | 80% | 84% |
| Canran yr argymhellion archwilio a roddwyd ar waith o fewn yr amserlen y cytunwyd arni | 68% | 80% | 56% | 71% |

3.3 Gweithredu'r Cynllun Archwilio

Yn ogystal â monitro a rheoli nifer yr archwiliadau a gynhelir, caiff archwiliadau eu dyrannu er mwyn sicrhau bod sicrwydd eang erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, a bod hwnnw'n sail ar gyfer barn flynyddol y Rheolwr Archwilio.

Fel yr amlinellir yn adran 2.4 – Gweithgareddau Presennol, cwblhawyd pump ar hugain o ddigwyddiadau archwilio newydd yn y flwyddyn ariannol 2022/23 hyd yma. Dangosir sefyllfa bresennol Cynllun Archwilio llawn 2022/23 yn **Atodiad B** – Cynllun Archwilio.

3.4 Argymhellion

Mae crynodeb o'r camau archwilio agored wedi'i gynnwys yn **Atodiad C**, i gefnogi'r Pwyllgor Llywodraethiant ac Archwilio i fonitro ac adolygu ymateb rheolwyr i'r argymhellion a godwyd.

Wedi'u cynnwys yn **Atodiad D** mae'r argymhellion coch a choch/oren agored gan gynnwys yr ymateb rheoli presennol er gwybodaeth i'r Pwyllgor a'i waith monitro. Mae **Atodiad E** yn cynnwys yr argymhellion coch a choch/oren sydd wedi'u cwblhau ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Archwilio. Rhoddir argymhellion melyn/gwyrdd a gwyrdd i'r Pwyllgor trwy lwybr ar wahân.

Mae'r tabl isod yn dangos yr achosion lle mae dyddiadau gweithredu wedi'u diwygio fel arfer gan gleientiaid archwilio, ar gyfer archwiliadau nad ydynt yn cael eu cydnabod fel rhai y cyfeirir atynt yn llawn (ar 30.09.22). Adroddir am y sefyllfa yn erbyn argymhellion, i fonitro cynnydd ac i dargedu trafodaethau ar reoli risg yn effeithiol, mewn cyfarfodydd rheoli perthnasoedd bob chwarter.

Ffigur 6. Dyddiadau diwygiedig ar gyfer rhoi argymhellion ar waith a'r statws

| Cyfarwyddiaeth / Categori Archwilio | Nifer yr argymhellion gyda dyddiadau diwygiedig | Camau gweithredu bellach wedi'u rhoi ar waith | Camau gweithredu ar agor o hyd |
|---|---|---|---|
| Sylfaenol | 22 | 16 | 6 |
| Corfforaethol | 44 | 36 | 8 |
| Allanol a grantiau | 13 | 8 | 5 |
| Oedolion, Tai a Chymunedau | 42 | 25 | 17 |
| Gwasanaethau Plant | 28 | 23 | 5 |
| Datblygu Economaidd | 32 | 32 | 0 |
| Addysg a Dysgu Gydol Oes | 86 | 59 | 27 |
| Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd | 43 | 26 | 17 |

| Cyfarwyddiaeth / Categori Archwilio | Nifer yr argymhellion gyda dyddiadau diwygiedig | Camau gweithredu bellach wedi'u rhoi ar waith | Camau gweithredu ar agor o hyd |
|---|---|---|---|
| Pobl a Chymunedau | 1 | 1 | 0 |
| Adnoddau | 38 | 26 | 12 |
| Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethiant | 9 | 9 | 0 |
| Rheoli Gwastraff | 75 | 72 | 3 |
| | 433 | 333 | 100 |
| Ysgolion | 162 | 125 | 37 |
| CYFANSWM | 595 | 458 | 137 |

DS - Dylid nodi bod y tabl uchod yn cynrychioli'r sefyllfa ar 30 Medi 2022, tra bo atodiadau'r traciwr argymhellion yn dangos y sefyllfa fanwl yn erbyn pob argymhelliad ar y dyddiad agosaf posibl i bob cyfarfod Pwyllgor.

# 4 Casgliad

## 4.1 Crynodeb

Yn ystod chwarter dau 2022/23, mae blaenoriaethau ac ymagwedd y tîm archwilio wedi parhau i gyflawni cyfuniad o gymorth rheoli drwy ymgynghori ac ymgysylltu mewn meysydd risg uchel, a chyflawni ymgysylltiadau sicrwydd o'r Cynllun Archwilio.

Mae'n gadarnhaol adrodd yn ystod chwarter dau, bod pob barn archwilio a roddwyd naill ai'n 'effeithiol' neu'n 'effeithiol gyda lle i wella'. Ochr yn ochr â'r gwaith sicrwydd, mae'r Tîm Archwilio Mewnol wedi parhau i fod ar gael a rhoi cyngor ac arweiniad ar gynllunio a gweithredu rheolaethau effeithiol wrth weinyddu cynlluniau grantiau COVID-19 Llywodraeth Cymru yn ogystal â'r Cynllun Cartrefi i Wcráin, i sicrhau cydymffurfiaeth a rheolaeth, a threfniadau ar gyfer atal a chanfod twyll yn effeithiol.

Mae adolygiad wedi digwydd o'r gofynion adnoddau ar gyfer y tîm sy'n gysylltiedig â chynllunio cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod. Daw hyn yn dilyn ail ymarfer recriwtio aflwyddiannus ar gyfer y swydd uwch archwilydd gwag yn ystod Hydref 2022, a dim ymgeiswyr addas pan gafodd y swydd ei hysbysebu wedyn dros dro. Penderfynwyd buddsoddi mewn swydd prif archwilydd ychwanegol i wella craidd cadarn o uwch swyddogion o fewn y tîm a fyddai'n cynrychioli aelod ychwanegol o'r Tîm Rheoli Archwilio, yn amodol ar ymgyrch recriwtio lwyddiannus ac i beidio â llenwi swyddi gwag, a fyddai'n galluogi arbed £15k ar gyfer blwyddyn

ariannol 2022/23. Bydd gwaith y tîm mewnol yn parhau i gael ei ategu gan gomisiynu archwilwyr arbenigol i weithio o dan gyfarwyddyd y rheolwr archwilio lle bo angen.

Mae'r swydd uwch archwilydd gwag wedi cael effaith ar yr adnodd staff sydd ar gael a chynnydd y cynllun archwilio yn y flwyddyn hyd yma, yn ogystal â swydd arall a oedd yn wag yn ystod chwarter un. Er mwyn cefnogi darpariaeth archwilio mewn meysydd TG a llywodraethiant corfforaethol eleni, dyfarnwyd contract ar gyfer pedwar o ymgysylltiadau archwilio o dan gyfarwyddyd y rheolwr archwilio.

Mae cyflawni Cynllun Archwilio 2021/22 yn gymesur is na'r hyn a dargedwyd yn chwarter un, ac mae'r rhesymau'n ymwneud yn bennaf ag adnoddau fel yr amlinellir yn adran 2.5. Yr 'Adnoddau' lle dangosir y swydd yw adran 3.2 'perfformiad'. Nid yw'n anghyffredin chwaith i berfformiad fod yn is ar yr adeg hon o'r flwyddyn, sy'n dilyn gwyliau'r haf. Bydd ffocws ar gynyddu'r cwmpasiad drwy weddill y flwyddyn ariannol. Mae archwiliadau yn parhau i gael eu dyrannu ar y sail sy'n darparu'r sicrwydd a'r gwerth mwyaf, ac yn lliniaru ar unrhyw nam i farn flynyddol y Rheolwr Archwilio ar amgylchedd rheoli'r Cyngor ar gyfer 2022/23 .

## Statws yr Adroddiad (fel ar 30 Medi 2022)

| Barn Archwilio | Maes Archwilio | Argymhellion Risg Uchel | | Statws (Os nad yw wedi'i Gwblhau |
|---|---|---|---|---|
| | | Cynigiwyd | Cytunwyd | |
| | Sylfaenol / Uchel | | | |
| Effeithiol | Adnoddau – Incwm a Dyledwyr (dygwyd ymlaen o 2021/22) | | | Drafftiau wedi'u Cyhoeddi |
| | Grantiau Covid Llywodraeth Cymru - Sicrwydd (2021/22) | | | |
| | Rheoli Asedau Ysgol - Thematig (Albany) | | | |
| | Pobl a Chymunedau - Comisiynu a Chaffael (dygwyd ymlaen o 2021/22) | | | |
| | Prif Gyfrifyddu (dygwyd ymlaen o 2021/22) | | | |
| | Prynu a Thaliadau - profion yn ystod y flwyddyn (dygwyd ymlaen o 2021/22) | | | |
| | Illtud Sant - Rheoli Asedau Ysgolion (dygwyd ymlaen o 2021/22) | | | |
| Effeithiol gyda lle i wella | Adnoddau - Iechyd a Diogelwch (dygwyd ymlaen o 2021/22) | | | Drafftiau wedi'u Cyhoeddi |
| | Oedolion, Tai a Chymunedau - Sicrwydd Cyn Contract (dygwyd ymlaen o 2021/22) | | | |
| | Prosesau Chwythu'r Chwiban (dygwyd ymlaen o 2021/22) | | | |
| | Cyflogres ac AD – Profi yn Ystod y Flwyddyn (dygwyd ymlaen o 2021/22) | | | |
| | Rheoli Asedau (dygwyd ymlaen o 2021/22) | | | |
| | Cynlluniau Adfer y Gyfarwyddiaeth (dygwyd ymlaen o 2021/22) | | | |
| | Gwerth am arian mewn Mentrau Digidol (dygwyd ymlaen o 2021/22) | | | |
| | Incwm a Dyledwyr | | | |
| | Iechyd a diogelwch | | | |
| | Caffael | | | |
| | Trefniadau Rheoli Risg | | | |
| | Taliadau Staff Asiantaeth | | | |
| | Storfeydd Brindley Road | | | |
| | Diogelu | | | |
| | Archwiliad o'r Crud i'r Bedd (dygwyd ymlaen o 2021/22) | | | |
| | Cardiau Prynu (dygwyd ymlaen o 2021/22) | | | |
| | Rheoli Perfformiad Corfforaethol (dygwyd ymlaen o 2021/22) | | | |
